# Nodiadau Canllaw Cais am Drwydded Delwyr Metel Sgrap

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

**O Ebrill 4 2022 mae gofynion gwiriad treth CThEM wedi newid sut y gwneir ceisiadau am drwydded delwyr metel sgrap. Darllenwch y nodiadau canllaw am fwy o wybodaeth**

Mae'n ofynnol bod unrhyw berson sy'n gweithredu busnes fel casglwr metel sgrap, safle metel sgrap neu adfer moduron ym Mwrdeistref Merthyr Tudful yn cael trwydded oddi wrth y Cyngor hwn.

## Beth yw'r diffiniad o fetel sgrap?

Mae hyn yn cynnwys unrhyw hen fetel, metel gwastraff neu fetel a daflwyd neu ddeunydd metelig, ac unrhyw nwyddau, gwrthrych neu gyfuniad gaiff ei wneud o, neu sy'n cynnwys metel ac sydd wedi torri, treulio neu a welir gan ei ddeiliad olaf o fod wedi cyrraedd diwedd ei fywyd defnyddiol. Er enghraifft boileri, peiriannau golchi, cerbydau.

Noder nad yw unrhyw eitemau aur, arian, nac unrhyw aloi y mae 2 y cant neu fwy ohono o ran pwysau'n cynnwys aur neu arian yn cael ei ddosbarthu fel metel sgrap.

## A oes yna wahanol fathau o Drwyddedau ar gael?

Oes. Ceir dau fath o Drwydded, un ar gyfer safle ac un arall i'r casglwr moduron.

*<u>Trwydded Safle</u>* – sy'n eich galluogi chi i brynu a gwerthu metel sgrap o leoliad penodol yn ardal y Cyngor. Bydd gan bob safle Rheolwr Safle enwebedig wedi ei gynnwys ar y Drwydded.

*<u>Trwydded Casglwr</u>* - sy'n eich galluogi chi i deithio yn ardal y Cyngor i gasglu metel sgrap. Ni allwch gymryd y metel hwn yn ôl i safle yr ydych yn ei redeg yn ardal y Cyngor er mwyn ei werthu.

Dim ond am **un** math o drwydded y gallwch wneud cais amdano ym mhob ardal Cyngor.

Os oes nifer o safleoedd gennych mewn un ardal Cyngor yna gallwch wneud cais i gynnwys yr holl safleoedd hyn ar un Drwydded.

## Beth sy'n rhaid i mi ei gyflwyno gyda fy ffurflen gais?

Bydd yn ofynnol bod yr holl ymgeiswyr yn talu ffi gyda'r cais ynghyd â;

Trwydded y Safle
Datgeliad sylfaenol ar gyfer yr ymgeisydd, (pan fo'r ymgeisydd yn fusnes neu bartneriaeth, byddai'n ofynnol i'r partneriaid a'r cyfarwyddwyr darparu datgeliadau sylfaenol unigol).

Trwydded y Casglwr
Datgeliad sylfaenol ar gyfer yr ymgeisydd a ffoto pasbort.

**Neges Bwysig:** Rhaid i ddatgeliadau fod yn llai na thri mis oed pan gaiff y cais ei gyflwyno. Mae datgeliadau sylfaenol ar gael o https://www.gov.uk/request-copy-criminal-record.

## Sut ydw i yn cwblhau gwiriad treth ar gyfer fy nghais?

O Ebrill 4ydd 2022 mae newidiadau wedi bod ar sut i wneud cais am drwydded, bydd rhaid gwneud gwiriad treth gyda CThEM gyntaf. Mae'r broses yn wahanol ar gyfer ceisiadau newydd ac ail geisiadau.

Ceisiadau Newydd
Bydd gofyn i ymgeiswyr newydd ddarllen canllawiau CThEM ar beth sydd rhaid ei wneud i gofrestru am dreth yn y dyfodol a chadarnhau eich bod wedi gwneud hyn trwy gwblhau y blwch gwirio ar y ffurflen gais. Gellir dod o hyd i'r canllawiau ar https://www.gov.uk/guidance/changes-for-taxi-private-hire-or-scrap-metal-licence-applications-from-april-2022, mae copi wedi ei gynnwys yn y pecyn cais hwn.

Ail Geisiadau
Bydd angen i ail geisiadau wneud gwiriad treth gyda CThEM a chyflwyno còd ar y ffurflen gais. Mae copi o ganllawiau CThEM wedi ei gynnwys gyda'r pecyn cais hwn.

Mae gwasanaeth gwirio treth CThEM ar gael ar-lein <https://www.gov.uk/guidance/complete-a-tax-check-for-a-taxi-private-hire-or-scrap-metal-licence> bydd còd sy'n do di ben o fewn 120 yn cael ei roi i chi. Gallwch ddefnyddio'r gwiriad treth ar gyfer mwy nag un cais cyhyd eich bod yn gwneud cais am yr un math o drwydded (e.e. yr un drwydded am fwy nag un ardal awdurdod lleol).

## Ffioedd Ymgeisio

Y ffioedd cyfredol yw:

| | Trwydded Safle | Trwydded Casglwr |
|---|---|---|
| Cais Newydd | £327 | £226 |
| Amrywio Trwydded | £72 | £68 |
| Adnewyddu Trwydded | £288 | £210 |

Gellir gwneud taliadau gydag arian parod, siec neu gerdyn dros y ffôn. Os ydych eisiau talu gyda cherdyn dewis y blwch cywir ar y ffurflen gais. Pan fydd eich cais wedi ei derbyn bydd rhywun yn cysylltu â chi i drefnu eich taliad cerdyn.

## Beth sy’n digwydd nesaf?

Cyn y gall y cais gael ei gymeradwyo mae’n rhaid i’r Cyngor sicrhau fod yr ymgeisydd yn berson addas i fod yn ddeliwr busnes sgrap a gwneir hyn drwy:

1. Asesu datgeliad sylfaenol, os oes gan ymgeisydd ‘euogfarn berthnasol heb ei disbyddu’ neu unrhyw euogfarn arall allai effeithio ar addasrwydd yr ymgeisydd â thrwyddedau safle, ar reolwyr safle.

2. Ymgynghoriad 21 diwrnod ag Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor a Heddlu De Cymru.

3. Asesu unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Er enghraifft, ymddygiad yr ymgeisydd wrth weithredu ei fusnes. Mae amharodrwydd i gydymffurfio, cwynion a gweithredu heb drwydded yn ffactorau, fyddai, er enghraifft yn cael eu hystyried

4. Gwirio bod gwiriad treth CThEM wedi ei wneud ar gyfer ail geisiadau, neu fod yr ymgeisydd wedi cadarnhau eu bod yn ymwybodol o ganllawiau CThEM ar gyfer ymgeiswyr Newydd. Nodwch ni ellir prosesu eich cais heb gwblhau hyn.

## Am ba mor hir fydd y Drwydded yn parhau?

Bydd y drwydded yn parhau am 3 blynedd.

## Beth fydd yn digwydd os bydd y cyngor yn gwrthod Trwydded?

Byddwch yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig yn nodi fod y cyngor yn argymell gwrthod y cynnig ac mae gennych 21 diwrnod i wneud sylwadau er mwyn cefnogi'ch cais. Gall y rhain gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb.

Byddwn yna'n trefnu cyfarfod er mwyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Amddiffyn a Diogelu, a fydd yn cael ei gynghori gan aelod o dîm cyfreithiol yr awdurdod, wrando ar eich sylwadau.

Petai'r Cyngor yn gwrthod eich Trwydded, bydd gennych hawl i apelio, oddi fewn 21 diwrnod i'r Llys Ymadon.

## Pa amrywiadau allaf eu gwneud i fy nhrwydded?

Dyma'r opsiynau ar gyfer amrywiadau:

1. Newid i fanylion y trwyddedai (enw a chyfeiriad.)
2. Newid o Drwydded Safle i Drwydded Casglwr neu i'r gwrthwyneb.
3. Newid i'r safle a drwyddedwyd (ychwanegu, hepgor neu newid manylion.)
4. Newid Rheolwyr Safle.

**Pwysig:** Fel rhan o'ch trwydded, mae'n ofynnol i chi hysbysu'r Cyngor, oddi fewn 28 diwrnod o unrhyw un o'r newidiadau uchod.

## Cymraeg

Nodwch fod y nodiadau canllaw hyn a'r ffurflen gais ar gael yn Gymraeg, rhowch wybod os ydych yn dymuno derbyn ffurflenni a nodiadau canllaw Cymraeg.

## Manylion Cyswllt

Am ffurflen gais neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Safonau Masnach, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN.

Ffôn: 01685 725000

E-bost: TradingStandards@merthyr.gov.uk